

Gwers 41 – Brecwast ar y traeth

Nodiadau Cefndir i'r Athro


Ioan 21:1–14

Credir mai ychwanegiad yw'r bennod hon; y mae 21:24 yn awgrymu fod y bennod wedi ei hysgrifennu gan un arall ar sail tystiolaeth Ioan, a hynny er mwyn adrodd yr hyn a ddigwyddodd i Pedr. Tra'r oedd Pedr yn cadw'n gynnes yng nghyntedd palas yr Archoffeiriad, ac Iesu'n cael ei holi gan Annas, cyhuddwyd ef o fod yn un o ddilynwyr Iesu, ond gwadu hynny a wnaeth. Ac yntau'n dal i siarad, canodd y ceiliog a chofiodd eiriau Iesu yn yr oruwch ystafell, 'Yn wir, yn wir, rwy'n dweud wrthynt, ni chânt y ceiliog cyn iti fy ngwadu i dair gwaith' (Ioan 13:38). Nid oedd Ioan am orffen yr efengyl heb ddweud wrth ei ddarllenwyr bod Pedr wedi ei adfer i'r apostolaeth, a byddai hynny'n egluro sut yr oedd Pedr yn ffigur mor amlwg yn hanes yr Eglwys Fore. Erbyn iddo ysgrifennu'r efengyl roedd Pedr wedi marw.

Roedd y dyddiau'n dilyn yr atgyfodiad yn ansicr gydag amheuaeth ynglŷn â'r dyfodol â rhai o'r disgyblion wedi dychwelyd i ddilyn eu galwedigaethau blaenorol. Roedd y deuddeg wedi gadael eu gwaith beunyddiol i ganlyn Iesu a'i ddilyn o bentref i bentref, yn gwrando arno, ac yn dystion i'r gwyrthiau. Gwelsant ddigwyddiadau'r Wythnos Fawr yn Jerwsalem, yn diweddu gyda'r croeshoelio ar Golgotha. Dilynwyd hynny gan ddigwyddiadau rhyfedd, clywsant adroddiadau rhai chwirydd yn dweud bod y bedd yn wag. Eraill yn dweud wrthynt weld Iesu'n fyw; roedd ganddo'r gallu i ymddangos a diflannu yn ddirybudd. Roeddent mewn cymaint o benbleth fel bod Simon, a chwech arall, wedi penderfynu dychwelyd i Galilea ac ail afael yn yr hyn a wnaent cyn i Iesu eu galw i'w ddilyn, pysgota.

Mae'n ddiddorol sylwi mai pysgotwyr oedd hanner y disgyblion a alwodd Iesu. Nodweddiion amlwg pysgotwyr oedd dewrder, dyfalbarhad ac amynedd, ynghyd â'r parodrwydd i gydweithio fel tîm. Bu'n noson wael o bysgota, ac er eu profiad fel pysgotwyr proffesiynol 'ni ddaliasant ddim y noson honno' (Ioan 21:3). Wrth ddychwelyd i'r lan, gwelsant ddyn yn sefyll yno ond nid oeddent yn ei adnabod. 'Does gennych ddim pysgod, fechgyn?', gofynnodd y dyn, a rhaid oedd iddynt ateb, 'Nac oes'. Roedd y gorchymyn i fwrw'r rhwyd i'r ochr dde i gael helpa yn herio eu profiad a'u gwybodaeth fel pysgotwyr oherwydd, yn y nos oedd yr amser gorau i bysgota a hynny yn y dŵr dwfn, nid ganol bore ac yn ymyl y lan. Roedd yr helpa mor fawr fel bod angen cymorth pob un ohonynt i ddod â'r helpa o 153 o bysgod i'r lan. Y gwahaniaeth rhwng methiant a llwyddiant oedd lled y llong! A'r ffaith fod Iesu gyda hwy yn awr.

Yr oedd Iesu wedi cynnau tân golosg a gwahoddodd y pysgotwyr i gael brecwast. Bellach, nid oedd neb yn meiddio gofyn pwy ydoedd, gwyddent yn iawn mai Iesu ydoedd. Gwelir yma pam y dewisodd Iesu gymaint o bysgotwyr i'w ddilyn. Gwyddai'r pysgotwyr sut i weithio. Mae ganddynt y dewrder a'r parodrwydd i fentro i'r dwfn, yr amynedd a'r dyfalbarhad i ddal ati heb roi'r ffidil yn y to. Gwyddant mor hanfodol yw cydweithio gyda'i gilydd ac y maent yn brofiadol gyda'r offer a'r cwch. Yr union gymwysterau ar gyfer bod yn pysgotwyr pobl.



Dyma lesu yn cyfarfod ei ffrindiau ger Môr Galilea ar ôl iddo godi o farw'h fyw.

Una'r dotiau i weld beth sy'n digwydd yn y llun.

Cei ddarllen y stori hon yn loan 21:1-14.

Gwers 41 – Brecwast ar y traeth

Pysgod i frecwast | Ioan 21:1–14

Beibl Gweithgaredd y Plant / Lleiaf tud. 172



Gwers 41

Brecwast ar y traeth

BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN /DROS 7 oed

Brecwast ar y traeth tud 172

BEIBL LLIW STORI DUW

Pysgota ar lyn Galilea tud 275

BEIBL LLIW Y PLANT

Pysgod i frecwast tud 216

BEIBL NEWYDD Y PLANT

Pysgod i frecwast tud 216

Y BEIBL I BLANT MEWN 365 STORIÄU

'Wyt ti'n fy ngharu?'(336) tud 382

BEIBL LLIW Y TEULU

Brecwast wrth y llyn (290) tud 152

I Ddechrau ...

Hel Pysgod

Bydd angen swp o bysgod papur/plastig/sbwng (o leiaf 10 i bob tîm), llwyau mawr, sosban neu powlen fawr i ddal y pysgod. Os yw'r tywydd yn braf cewch chwarae'r gêm hon tu allan – llenwch y sosban gyda dŵr a rhowch y pysgod ynddi.

Rhannwch y plant i dimoedd. Gellwch chwarae'r gêm fel ras yn erbyn y cloc, gyda'r tîm cyflymaf yn ennill, neu'n ras gyda'r timoedd yn erbyn ei gilydd. Nod y gêm yw casglu gymaint o bysgod ag sy'n bosibl o fewn dwy funud, neu nes bod pob pysgodyn wedi eu casglu.

Gofynnwch i'r plant a ydynt yn cofio beth oedd gwaith Pedr cyn iddo fynd yn ddisgybl i Iesu.

Esboniwch fod Pedr wedi penderfynu mynd yn ôl i bysgota ar ôl i Iesu farw ac atgyfodi, a sut y bu i Iesu gyfarfod â Pedr ar lan y môr un bore i gael sgwrs bwysig iawn gydag ef.

Yr Hanes ...

Darllenwch yr hanes gan ddefnyddio 'Beibl Gweithgaredd y Plant' neu un o'r llyfrau yn y Rhestr Adnoddau. Wedyn, defnyddiwch y syniad canlynol i atgyfnerthu a chymhwysu'r stori. Neu, defnyddiwch y syniad canlynol wrth i chi adrodd yr hanes yn eich geiriau eich hun.

Rhoi'r hanes mewn trefn

Bydd angen brawddegau o'r hanes wedi'u hysgrifennu ar bapurau siâp pysgod. Paratowch setiau ar bapur lliw gwahanol os bydd angen rhannu'r plant yn grwpiau llai. Hefyd, dau bysgodyn, gyda'r geiriau "Pedr, wyt ti'n fy ngharu?" ar un, a'r geiriau "Ydw, Arglwydd, ti'n gwybod fy mod i'n dy garu" ar y llall.

Gofynnwch i'r plant beth oedd gwaith Pedr cyn iddo ddod yn ddisgybl i Iesu? Dangoswch luniau o'r disgyblion yn pysgota (Beibl Lliw y Plant, tud. 206, 207, 210). Esboniwch sut y bu i Iesu ymddangos o flaen y disgyblion lawer gwaith yn ystod yr wythnosau ar ôl iddo atgyfodi; sut y penderfynodd Pedr a rhai o'r disgyblion eraill fynd allan i bysgota un diwrnod, a sut y daeth Iesu i lân y môr i baratoi brecwast iddynt. Rhannwch y plant i dimoedd, ac esboniwch fod pob tîm yn mynd i bysgota am bysgod o un lliw penodol. Taflwch y pysgod i'r awyr a gofynnwch i'r plant i fynd ati i gasglu eu pysgod a'u gosod yn nhrefn y stori. Ar ôl iddynt orffen, darllenwch yr hanes eich hun a gadewch i'r plant ail drefnu eu pysgod os bydd angen.

Cymhwyso

Dangoswch y pysgodyn gyda'r cwestiwn, "Pedr, wyt ti'n fy ngharu?" arno, ac esboniwch wrth y plant fod Iesu wedi gofyn y cwestiwn hwn i Pedr wrth iddynt fwyta'r brecwast. Dangoswch ateb Pedr. Esboniwch fod Iesu wedi gofyn yr un cwestiwn deirgwaith i Pedr, a gofynnwch i'r plant a oes ganddynt unrhyw syniad pam iddo wneud hynny? Roedd gan Iesu waith arall i Pedr nawr – dim mwy o gasglu pysgod! Roedd Iesu am i Pedr ofalu am y disgyblion eraill ar ôl iddo fynd yn ôl i'r nef, at Dduw ei dad. Roedd Iesu hefyd am i Pedr sôn wrth bobl ymhob man amdano fel y byddai llawer o bobl eraill yn dod i gredu yn Iesu a'i garu. Roedd Pedr yn sicr nawr bod Iesu wedi maddau iddo ac yn ei garu o hyd.

Adnod i ddysgu

"Dangosodd Duw i ni cymaint y mae'n ein caru trwy i'r Meseia farw trosom pan roedden ni'n dal i bechu yn ei erbyn!" (Rhufeiniaid 5:8)

Bydd angen yr adnod wedi'i hysgrifennu i bawb gael gweld, darno gerdyn i bawb (gwnaiff cerdyn pecyn grawnfwyd y tro'n iawn), chwaraewr CDd a CDd.

Darllenwch yr adnod ychydig o weithiau a'i hesbonio. Rhowch y cardiau – un i bawb namyn un, ar y llawr a chwaraewch y gerddoriaeth. Anogwch bawb i ddawnsio nes eich bod yn stopio'r gerddoriaeth; pan fyddwch yn stopio'r gerddoriaeth, dylai pawb geisio sefyll ar ddarn o gerdyn. Mae'r person sydd heb gerdyn yn adrodd yr adnod ar ei b/phen ei hun. Parhewch nes bod y plant i gyd wedi cael tro i adrodd yr adnod.

Gweddi

Pedr yn caru'r Iesu

Bydd angen pecyn o Lovehearts, siâp calon fawr a siapiau calonnau bach i'r plant. Rhannwch y fferins rhwng y plant gan ofyn iddynt ddarllen y negeseuon sydd arnynt cyn eu bwyta. Rhowch siâp calon i bawb, a gofynnwch i'r plant liwio'r galon mewn lliw pastel gyda border (yn debyg i'r fferins). Wedyn, gofynnwch i'r plant i feddwl am neges yr hoffent ei rhoi i Iesu wrth feddwl am hanesion yr wythnosau diwethaf. Atgoffwch nhw o'r ffaith fod Iesu'n barod i faddau i ni, fel y maddeuodd i Pedr, ond i ni siarad gydag ef a gofyn iddo o waelod calon. Gludwch y siapiau ar siâp calon fawr.

Cân

'Yn hyn y mae cariad' (Y Cyntaf a'r Olaf, Curiad 2008)

Adnoddau Ychwanegol

Gwerslyfrau Golau ar y Gair

Pasg: Iesu'r Brenin

Tafleuni gwefan amserbeibl.org

Cyfres a, B a C – Y Groes a Iesu'n Marw

Cyfres DVD Stori Duw

Stori 48: Y Pasg Cyntaf

Cyfres Powerpoints Beibl Bach i Blant

Stori 58: Y Diwrnod mwyaf Hapus

Cwis a Chwilair

Llyfr Cwis Cyntaf i Ateb tud 352

Llyfrau Stori

Stori'r Pasg i Blant Bach

Stori'r Pasg

Rhywun Arbennig Iawn

Y Pasg Cyntaf

